


O ganlyniad i argymhellion Donaldson gwyddys bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn dod yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd o fewn y cwricwlwm Newydd. Er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn “medru cymryd rhan yn llwyddiannus a hyderus yn y byd modern” (Donaldson, 2015, t.40). Atgyfnertha hwn drwy bwysleisio bod rhaid i addysgwyr ddarparu cyfleoedd yn aml i ddisgyblion ddatblygu, ymestyn a chymhwyso eu sgiliau ar draws y cwricwlwm (Donaldson, 2015). Cydnabyddir nad oes yna gyfyngiad amser penodol ar gyfer dysgu trawsgwricwlaidd llwyddiannus (Barnes, 2015) ond yn hytrach pwysigrwydd llais y plentyn wrth ddysgu yn drawsgwricwlaidd. Pwysleisia Donaldson (2015) mae’n rhaid bod y themâu a’r gwaith yn berthnasol er mwyn ddiddori’r disgyblion. Cytuna Savage (2010) gan ddweud bod yn rhaid diddori a chreu cysylltiadau gyda digwyddiadau ehangach bywyd.

Byw yn Iach–Bl.2



Addaswyd o Barnes (2015, t.73).

Profiad Pwerus

Edrychwn ar fwydded poblogaidd megis bariau o siocled a diodydd melys yn ogystal â rhai ffrwythau a gweld yn weledol faint o fraster a siwgr sydd ynddynt. Gyda’r gobaith y bydd y profiad yn sbarduno trafodaeth.

Datblygiad Creadigol

Yn ystod y gweithgaredd bydd y disgyblion yn gyd weithio i greu pryd iachus o’u dewis. Pan fyddant wedi penderfynu ar rysâit bydd angen iddynt yn eu tro i ymweld â siop y dosbarth er mwyn prynu cynhwysion drwy “defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:34). Bydd eraill yn ymwneud gyda chwestiynau penagored wrth ymresymu gyda rhai cyfrifiadau yn ymwneud gyda phrynu a gwerthu nwyddau. Cyn dechrau coginio bydd trafodaeth ar lafar yn digwydd ynglŷn â materion hylendid a pa gamau sydd angen eu cymryd o flaen llaw. Trwy gydol y gweithgaredd bydd hi’n hanfodol bod disgyblion yn “gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:15) er mwyn ei bod yn medru “dewis cyfarpar ac adnoddau priodol” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:30) wrth fesur cynhwysion a choginio. Wrth fod y disgyblion yn pwysu’r cynhwysion byddant yn medru “canfod haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:32) a gweld perthynas rhwng y rhifau a bwyd yn y byd go iawn.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol


O ganlyniad i’r gweithgareddau blaenorol bydd disgyblion yn medru defnyddio’r wybodaeth I er mwyn creu hysbyseb ar gyfer y teledu ynglŷn â phwysigrwydd bwyta’n iach. Byddant yn defnyddio sgaffaid cyfarwyddiadau Palmer (2010) I gynllunio eu hysbyseb gan “ysgrifennu at ddibenion gwahanol” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:24) gan gynllunio rhannau o’i hysbyseb mewn trefn gronolegol. Wrth iddynt ysgrifennu dan arweiniad bydd rhaid iddynt gofio “ymestyn eu syniadau gan drefnu’r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:14) er mwyn cyfleu pwysigrwydd bwyta’n iach ac o ble ddaw ein bwyd heb golli diddordeb y gynulleidfa. Wrth iddynt fynd ati i greu eu hysbyseb bydd angen rhannu swyddi o fewn grwpiau penodol o tua 5 disgybl, bydd rhaid iddynt ystyried cryfderau pob disgybl yn y grŵp a pa rôl fyddai orau iddynt. Y bwriad yw “creu a golygu cydrannau aml-gyfyngol er mwyn datblygu testun, delwedd, sain, animeiddiad a fidio ar gyfer ystod o dasgau mewn un iaith neu fwy” (LIC, 2016).

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd

Darllenir y stori ‘Sypreis Handa’ ar y cyd ar ddechrau’r thema ‘Byw yn Iach’ er mwyn cyflwyno bwydydd anarferol o wledydd tramor. Wrth I’r disgyblion “wrandao ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:15) daw’r disgyblion i ddeall bod rhai o’r bwydydd rydym ni’n eu bwyta bob dydd yn dod o wledydd tramor. Trafodir pam bod rhai bwydydd yn tyfu yn y wlad yma ac eraill yn methu drwy archwilio’r effaith a gai’r amgylchedd ar rhai bwydydd yn benodol drwy gyflwyno terminoleg pwnc penodol. Galluoga hwn y disgyblion I “gyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:17) ynglŷn â pham bod tymhorau gwahanol yn effeithio ar blanhigion a bwydydd penodol drwy “ddefnyddio allweddeiriau i chwilio am wybodaeth i ddatrys problem” (LIC, 2016).

Wrth weithio mewn grwpiau gofynnir i’r disgyblion drafod be yw ei hoff fwydydd gan “fynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:75) . Wedi’r drafodaeth bydd gofyn i’r disgyblion “casglu a chofnodi data” a chreu “graffiau bloc” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:37) I ddangos hoff fwydydd y dosbarth. O ganlyniad i’r graffiau gallwn edrych ar ba fwyd sydd yn iach neu beidio ag edrych beth sydd fwyaf poblogaidd.

Model 2 Thema Seiliedig



Dawnsio Gwerin

Defnyddio ysgogiadau gwahanol megis lluniau, cerddoriaeth a chlipiau fidio i ysbrydoli dawns gwerin gwreiddio ei hunain. Trafod ar lafar y lliwiau, siapiau a symudiadau drwy “mynegi barn, gan roi rhesymau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:14) dros ddewis y rhan yna o’r ddawns. Mynegi sut mae lliwiau a siapiau yn medru cyfleu gwahanol deimladau ar wahanol adegau.

Mewn grwpiau gallu cymysg byddant yn “mabwysiadu rôl benodol” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:14) I gynllunio ac arbrofi wrth greu dawns wreiddiol wedi ysbrydoli gan y ddawns gwerin draddodiadol.

Perfformio ei dawns o flaen cynulleidfa tra bod eraill yn eu recordio gydag offer TGCH yna “nodi beth weithiodd/beth na weithiodd, gan nodi rhesymau am eu barn” (LIC, 2016). Yn ddiweddarach cawn gyfle i ffireinio ei dawns ag ail berfformio er mwyn dangos cynnydd a gweithredu ar adborth beirniadol.

Cymreictod – Bl.2

Arwyr

Cyflwyno ac edrych ar arfbais y cymeriad hanesyddol Owain Glyndŵr a chyflwyno ychydig o’i hanes a rheswm a phwrpas arfbais yn yr hen ddyddiau. Esbonio bod Owain Glyndŵr yn un o arwyr cenedlaethol Cymru. Gofyn I’r disgyblion “gyfrannu i drafodaeth” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:17) ynglŷn â beth sy’n gwneud rhywun yn arwyr iddyn nhw a sut mae’n wahanol i Owain Glyndŵr. Edrych ar arfbesiau gwahanol a chynllunio arfbais ei hunan gan “adnabod llinellau gymesuredd siapiau 2D” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:36) a chreu arfbais teulu ei hun yn efelychu eu diddordebau mewn siâp cymesur. Wrth ddylunio’r arfbesiau bydd angen bod y disgyblion yn “mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:14) ynglŷn â pha symbolau sydd ar ei arfbais a pham.

Y Wlad

Astudio map gweledol o Gymru fel dosbarth yn cynnwys manau adnabyddus a’i lleoli ar y map. Trafod ar lafar lle mae’r manau a chanfod a oes unrhywun wedi bod yn ymweld â’r manau adnabyddus. I ganfod mwy o wybodaeth am fan penodol bydd grwpiau yn “Ddefnyddio allweddeiriau i chwilio am wybodaeth” (LIC, 2016).

I gywain y wybodaeth caiff y disgyblion mewn grwpiau’r cyfle i greu ffeil o ffaith ynglŷn â’i man penodol nhw drwy “ysgrifennu testun sy’n gwneud synnwyr i ddarllenrwydd arall” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:24). Yn ogystal caiff rhai’r cyfle I “arbrofi â ffurfiau a chynlluniau gwahanol ar sgrin” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:24) drwy greu ei ffeil o ffaith yn electronig ag yn rhyngweithiol. Defnyddir tacsonomeg Bloom(1956, dyfynnwyd yn Grigg, 2015) yn enwedig yr adrannau ‘cymhwyso’ a ‘dadansoddi’ i ofyn cwestiynau pwrpasol i’r disgyblion ynglŷn â’u manau adnabyddus. Er mwyn trosglwyddo’r wybodaeth i weddill y dosbarth bydd gweithgaredd stondin farchnad yn digwydd lle bydd y disgyblion yn cael y cyfle I “siarad yn fanwl am bethau y maent wedi’u llunio” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:14) a magu hyder wrth drosglwyddo’r wybodaeth.

Rygbi

Gan fod y gêm mor ddylanwadol yng Nghymru ac ar draws y byd mae’n darparu cyfle i ddefnyddio sgiliau mathemategol ymarferol mewn cyd–destunau bywyd bob dydd. Bydd tasgau wedi gwahaniaeth yn cael eu cyflwyno fel archwilio a phrynu nwyddau. Cyflwynir pecynnau teithio wedi gwahaniaethu lle bydd disgyblion yn “codi gwybodaeth o destun yn gywir a’i didoli’n gategoriau neu o dan benawdau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:22) fel bod grwpiau unigol yn trefnu rhannau penodol o daith i wyllo rygbi, megis y bwyd, llety a thrafnidiaeth. Wrth ddefnyddio sgiliau ymresymu i ddatrys y problem bydd gofyn bod y disgyblion yn “adnabod camau i gwblhau’r dasg” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t:30).

Manteision a Chyfyngiadau

Cydnabyddir bod yna fanteision lu ar gyfer y model hwn gan ei fod yn hybu meddwl yn greadigol drwy gysylltu agweddau tebyg rhwng y meysydd dysgu dan sylw. Mae’n fodel effeithiol gan ei fod yn galluogi disgyblion i archwilio agweddau ac ochrau gwahanol o bwnc neu problem benodol ac yna casglu’r wybodaeth ynghyd ar y diwedd. Os yw’r model wedi cael ei ddefnyddio yn effeithiol mae nifer o sgiliau yn cael eu cyfuno o ganlyniad i’r profiad personol a chreu rhywbeth newydd ar ddiwedd y prosiect.

Mynega Barnes (2015) bod angen i athrawon fod yn hyderus yn y ddau bwnc sy’n gysylltiedig wrth ddefnyddio’r model yma. Dengys ymchwil bod cyfuno tri neu mwy o bynciau i un thema gall olygu bod y cysyniadau ddim yn cael eu deall yn gywir ac achosi camsyniadau di angen.

Manteision a Chyfyngiadau

Ar un llaw mynega Barnes (2015) bod athrawon gyda gwybodaeth pwnc da yn medru addysgu yn drawsgwricwlaidd drwy thema gan ei bod yn medru addysgu ac ysgogi disgyblion. Cydnabyddwn fod angen thema cymharol eang fel bod pynciau yn medru cael eu cynnwys yn hwyllus a chreu cysylltiau rhwng agweddau tebyg mewn pynciau er mwyn medru trosglwyddo sgiliau yn llwyddiannus. Gwêl mantais o ddefnyddio themâu yn gysylltiedig gyda’r ardal neu bobl broffesiynol dylanwadol er mwyn cyfoethogi’r dysgu ai wneud yn berthnasol i’r disgyblion.

Ar y llaw arall gweld tueddiad o gynnwys gormod o bynciau gan fod rhai yn cael eu hychwanegu dim ond er mwyn eu cynnwys. O ganlyniad nid yw’r sgiliau yn cael ei dysgu yn ddwfn sy’n golygu bod y gwaith yn arwynebol yn hytrach nag addysgu safonol. Yn ogystal mae’n hanfodol bod llais y disgyblion yn cael clywed drwy’r themâu gan gynnwys agweddau o’r themâu sy’n eu diddori a’i ysbrydoli i ddysgu.